# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 5 Tachwedd 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad
Cenedlaethol
**Cymru**
National
Assembly for
**Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion

(159)

**Datganiad Y Llywydd**

Cyhoeddodd y Llywydd y cafodd Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 a Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 Gydsyniad Brenhinol ar 4 Tachwedd 2013.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

Dechreuodd yr eitem am 14.18.

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 12 a 14 i 15. Tynnwyd cwestiwn 13 yn ôl.

### 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 15.05

### 4 Datganiad gan y Prif Weinidog: Ymateb cychwynnol Llywodraeth y DU i adroddiad comisiwn Silk ar ddiwygio trefniadau ariannu Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.19

### 5 Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Cynnydd o ran Troi Tai'n Gartrefi

Dechreuodd yr eitem am 16.10

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Teithio at Ddyfodol Gwell - Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr

Dechreuodd yr eitem am 16.36

## 7 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Creu Cymwysterau Cymru

Dechreuodd yr eitem am 17.10

## 8 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Y Cyfleoedd a'r Heriau y mae'r Sector Coedwigaeth yng Nghymru yn eu Hwynebu

Dechreuodd yr eitem am 17.52

## 9 Dadl: Cymorth i'r Lluoedd Arfog yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 18.32

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio**

**NDM5343 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) gwaith Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cefnogi aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog;

b) y Pecyn Cymorth diweddaraf gan Lywodraeth Cymru i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru;

c) y gwaith sy’n mynd rhagddo drwy Grŵp Arbenigol Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ar Anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

Mae Pecyn Cymorth diweddaraf Llywodraeth Cymru i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru ar gael o’r ddolen ganlynol:

http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/armedforces/packagesupport/?skip=1&lang=cy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys is-bwynt a) newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

pwysigrwydd Dydd y Cofio o ran ein hatgoffa am aberth yr unigolion hynny sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog a'r rheiny yn y boblogaeth sifil a gollodd eu bywydau neu a brofodd newid diwrthdro yn eu bywydau yn sgil gwrthdaro ers 1914;

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys is-bwynt a) newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

bod Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf ar y gorwel a bod angen diogelu ein Cofebion Rhyfel;

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys is-bwynt b) newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

ac yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyflwyno Cynllun Cerdyn i Gyn-filwyr, yn unol â'r addewid a wnaed 2 flynedd yn ôl.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 37 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

anghenion cymhleth ac amrywiol Cymuned y Lluoedd Arfog.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 53 | 0 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y gwaith rhagorol y mae mudiadau ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol a noddir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ei wneud o ran ymgysylltu â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgorffori'r gwaith hwn yn ei fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 10 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu Cynllun Grantiau'r Cyfamod Cymunedol, gwerth £30 miliwn, y mae Llywodraeth y DU wedi'i lansio ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i gymunedau lleol gryfhau’r cyswllt a’r gyd-ddealltwriaeth rhwng aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog a’r gymuned ehangach y maent yn byw ynddi.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 10 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o gapasiti o fewn y GIG i alluogi aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru sy’n dioddef o Anhwylder Straen Wedi Trawma gael gofal priodol, gan gynnwys mynediad at arbenigwyr a chymorth brys a seibiant digonol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 53 | 0 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru yn cael y driniaeth feddygol flaenoriaethol y mae ganddynt hawl iddi drwy drefnu bod Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn rhoi dull cyson ar waith ar gyfer adnabod aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog; i sicrhau bod aelodau o Gymuned y

Lluoedd Arfog yn ymwybodol o'r hyn y mae ganddynt hawl iddo; ac i fonitro'r gwaith o ddarparu'r hawl honno.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 10 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 8.**

**Gwelliant 9 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi amserlen ar gyfer datblygu polisi comisiynu cam wrth gam ar gyfer darparu aelodau prosthetig o’r corff i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru a gwneud gwelliannau i'r gwaith o gynllunio, trefnu a darparu gwasanaethau prosthetig yn gyffredinol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9.**

**Gwelliant 10 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn sefydlu perthynas â Chanolfan Adferiad Meddygol y Gwasanaeth Amddiffyn yn Headley Court.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 10:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 10 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 10.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**

**NDM5343 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) bod Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf ar y gorwel a bod angen diogelu ein Cofebion Rhyfel;

b) pwysigrwydd Dydd y Cofio o ran ein hatgoffa am aberth yr unigolion hynny sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog a'r rheiny yn y boblogaeth sifil a gollodd eu bywydau neu a brofodd newid diwrthdro yn eu bywydau yn sgil gwrthdaro ers 1914;

c) gwaith Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cefnogi aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog;

ch) y Pecyn Cymorth diweddaraf gan Lywodraeth Cymru i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru;

d) y gwaith sy'n mynd rhagddo drwy Grŵp Arbenigol Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ar Anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

dd) anghenion cymhleth ac amrywiol Cymuned y Lluoedd Arfog.

2. Yn cydnabod y gwaith rhagorol y mae mudiadau ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol a noddir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ei wneud o ran ymgysylltu â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgorffori'r gwaith hwn yn ei fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid.

3. Yn croesawu Cynllun Grantiau'r Cyfamod Cymunedol, gwerth £30 miliwn, y mae Llywodraeth y DU wedi'i lansio ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i gymunedau lleol gryfhau'r cyswllt a'r gyd-ddealltwriaeth rhwng aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog a'r gymuned ehangach y maent yn byw ynddi.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o gapasiti o fewn y GIG i alluogi aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru sy'n dioddef o Anhwylder Straen Wedi Trawma gael gofal priodol, gan gynnwys mynediad at arbenigwyr a chymorth brys a seibiant digonol.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru yn cael y driniaeth feddygol flaenoriaethol y mae ganddynt hawl iddi drwy drefnu bod Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn rhoi dull cyson ar waith ar gyfer adnabod aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog; i sicrhau bod aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn ymwybodol o'r hyn y mae ganddynt hawl iddo; ac i fonitro'r gwaith o ddarparu'r hawl honno.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yn sefydlu perthynas â Chanolfan Adferiad Meddygol y Gwasanaeth Amddiffyn yn Headley Court.

Mae Pecyn Cymorth diweddaraf Llywodraeth Cymru i Gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru ar gael o'r ddolen ganlynol:

http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/armedforces/packagesupport/?skip=1&lang=cy

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 53 | 0 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 19.16

Daeth y cyfarfod i ben am 19:20

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 6 Tachwedd 2013**